GIG Cymru

**Strategaeth Mynd i'r Afael â Thwyll**



# ATAL TWYLL YN GIG CYMRU

## CYNNWYS


01 Rhagair

02 Crynodeb Gweithredol

03 Amcanion Strategol

04 Fframwaith Strategol

05 Adnoddau

06 Llywodraethu

07 Sicrhau Ansawdd

08 Casgliad



# 01 Rhagair

Rwy’n falch o gyflwyno’r Strategaeth Atal Twyll hon ar gyfer GIG Cymru. Bydd y Strategaeth hon yn canolbwyntio ymdrechion ar y frwydr yn erbyn twyll troseddol, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae Llywodraeth Cymru yn glir na fydd yn goddef trosedd economaidd yn erbyn GIG Cymru. Nid yw’r troseddau hyn heb ddioddefwyr, oherwydd maent yn dwyn cyllid y bwriedir iddo ddarparu gwasanaethau i gleifion. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithredu i ddiogelu’r cyllid hwn a cheisio iawn am yr holl droseddau economaidd a gyflawnir yn erbyn GIG Cymru.

Gyda dull aml-ddimensiwn trwy erlyn troseddol, atal twyll ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, rydym yn benderfynol nid yn unig o wneud cyflawni trosedd economaidd llawer yn anoddach, ond hefyd i adennill mwy o arian a gafodd ei ddwyn o GIG Cymru. Byddwn yn parhau i adeiladu cudd-wybodaeth i gael darlun cynhwysfawr o’r risgiau twyll sy’n esblygu ac i ddatblygu datrysiadau creadigol, arloesol a chymesur i fynd i’r afael â hwy.

Mae datblygu ymateb strategol, tactegol a gweithredol ledled GIG Cymru yn golygu y bydd yn gallu targedu gwendidau y mae twyllwyr yn manteisio arnynt yn well. Po fwyaf o arian y gallwn ei rwystro rhag mynd i ddwylo troseddwyr, po fwyaf o adnoddau sydd ar gael i wasanaethau rheng flaen.

Rwy’n falch o gefnogi’r gwaith pwysig hwn ac rwy’n hyderus y bydd y strategaeth hon yn gam hanfodol ymlaen wrth fynd i’r afael â thwyll yn GIG Cymru.

I gloi, byddwn yn hoffi diolch i’n staff a’n rhanddeiliaid sy’n llawn cymhelliant am eu hymdrechion yn y frwydr barhaus yn erbyn twyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn GIG Cymru.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Prif Weithredwr, GIG Cymru
Mehefin 2019

CYNNWYS

01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

# 02 Crynodeb Gweithredol

Mae nifer achosion a maint trosedd economaidd, gan gynnwys pob agwedd ar dwyll, yn bryder cynyddol i'r DU. Nodau'r Strategaeth hon yw atal twyll yn GIG Cymru, ac i gynyddu'r tebygolrwydd o ganfod twyll gyda chosbau addas lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Defnyddio cudd-wybodaeth i ddeall natur risgiau twyll;
- Addysgu ac ymgysylltu staff a rhanddeiliad i godi ymwybyddiaeth am y posibilrwydd o dwyll a'r niwed y mae'n ei achosi; a
- Chanfod ac ymchwilio i dwyll yn rhagweithiol a sicrhau cosbau priodol.

Mae twyll yn erbyn y GIG, sydd at ddibenion y ddogfen hon yn cynnwys twyll, llwgrwobrwyo, llygredd a gweithgareddau anghyfreithlon perthnasol eraill, yn effeithio ar bawb sy'n gweithio ynddo a phawb sy'n dibynnu arno. Mae twyll yn dwyn adnoddau gwerthfawr y GIG, yn cynyddu costau, yn lleihau effeithlonrwydd ac yn tanseilio hyder y cyhoedd. Mae GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn glir na ellir goddef twyll gan ei fod yn annerbyniol, ac yn dwyn adnoddau hanfodol a fwriadwyd ar gyfer darparu gofal o safon uchel i gleifion. Er bod mesurau i atal twyll ar waith, mae'n rhaid i'r rhain esblygu'n barhaus dros amser i adlewyrchu dysgu, cynnydd a dealltwriaeth o risgiau newydd posibl a gwendidau system. O'r herwydd, bydd GIG Cymru yn canolbwyntio ei adnoddau ar weithgaredd atal a chanfod, lle mae'r rhain yn debygol o gael yr effaith fwyaf.

Mae ein dull yn cynnwys rhoi sancsiynau ar waith trwy achosion troseddol a gweithdrefnau disgyblu, ynghyd â gweithredu i adennill arian a gollwyd drwy dwyll, trwy adennill sifil neu o dan y pwerau a roddwyd gan Ddeddf Enillion Troseddau 2002. Yn ystod y pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2019, gosodwyd 388 o sancsiynau, ac ad-dalwyd £2.3m a gollodd y GIG Cymru trwy dwyll a'i ddychwelyd i ariannu gofal cleifion.

Mae'r mathau o dwyll yr ydym yn eu hwynebu'n arbennig yn cynnwys:

- Twyll caffael
- Contractwyr - anfonebau chwyddedig/ cydgynllwynio wrth ddyfarnu contractau;
- Deintyddion, meddygon teulu, optegwyr, fferyllwyr - yn hawlio am driniaethau na ddarparwyd i gleifion;
- Cleifion - yn hawlio eithrio rhag talu Costau'r GIG ar gam;
- Staff – gweithio yn ystod absenoldeb salwch, taflenni amser a threuliau, cymwysterau ffug;
- Grantiau i Sefydliadau Gwirfoddol; a
- Thwyll seiber.

Yr heriau sy'n ein hwynebu mewn amgylchedd lle mae risgiau twyll yn esblygu'n barhaus, a lle credir bod lefel y gweithgaredd twyll yn cynyddu:

- Mae diffyg dadansoddiad cynhwysfawr o risgiau twyll penodol a allai arwain at beidio â chyfeirio adnoddau atal twyll i'r meysydd mwyaf priodol; ac
- Er ei bod yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth benodi Arbenigwr Atal Twyll Lleol, nid oes meincnod ar gyfer lefel yr adnoddau y dylid ei buddsoddi mewn gweithgareddau atal twyll, gan arwain at amrywiad sylweddol mewn lefelau adnoddau.

Mae nifer achosion troseddau economaidd, yr ystod eang o feysydd yr effeithir arnynt, a'r heriau y soniwyd amdanynt uchod, oll yn tynnu sylw at yr angen am gamau wedi'u targedu a'u cydgysylltu i fynd i'r afael â'r broblem yn effeithiol.



CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

# 03 Amcanion Strategol

Ein gweledigaeth yw bod GIG Cymru yn gallu amddiffyn yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gofal cleifion rheng flaen rhag twyll. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni gael dull cydgysylltiedig:

- sy'n addysgu ac yn ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o dwyll a'r newid y mae'n ei achosi;
- sy'n defnyddio cudd-wybodaeth i ddeall natur risgiau twyll; ac
- sy'n canfod yn rhagweithiol, ymchwilio i dwyll ac yn sicrhau cosbau ar bob lefel.

Y prif amcanion strategol ar gyfer GIG Cymru dros y tymor canolig yw:

## Hysbysu a Chynnwys

- parhau i wella'r dull o weithio ar y cyd
  - sicrhau bod y Gwasanaethau Atal Twyll yn cyd-fynd ac yn ymgysylltu â Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, y Timau Gwirio Ôl-daliad, ac archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol.
- atgyfnerthu'r neges glir na fydd twyll yn cael ei oddef
  - parhau i godi ymwybyddiaeth gyda staff a rhanddeiliaid; a
  - sicrhau bod canllawiau clir ar sut i adrodd ar amheuon.

## Rhwystro ac Atal

- nodi'r prif risgiau twyll i GIG Cymru:
  - cynnal asesiadau risg rheolaidd;
  - cydweithio â phartneriaid i wneud gwell defnydd o ddadansoddeg data;
  - dadansoddiad manwl o wybodaeth berthnasol; ac
  - adolygu ffynonellau sicrwydd presennol.
- Gwneud y mwyaf o fuddion gweithio mewn partneriaeth
  - Rhannu gwybodaeth a dysgu gwersi gyda sefydliadau megis yr Archwilydd Cyffred inol, Awdurdod Atal Twyll y GIG, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.
  - Adolygu a gwella ein rheolaethau system yn barhaus i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd.

## Dal i Gyfrif

- sicrhau dull cyson a chynhwysfawr i atal twyll ar draws GIG Cymru gyfan:
  - datblygu meincnod ar gyfer adnodd Arbenigwyr Atal Twyll Lleol ym mhob sefydliad yn GIG Cymru;
  - mae'n ofynnol i holl sefydliadau'r GIG gyflawni safon werdd yn erbyn Safonau Atal Twyll; a
  - buddsoddi yn y capasiti Atal Twyll a'i ddatblygu ar draws GIG Cymru a datblygu ffrwd talent.
- gwella capasiti ar gyfer gwaith ymchwil ariannol:
  - cynnal isafswm o ddau ymchwilydd ariannol;
  - trefnu hyfforddiant ychwanegol i atgyfnerthu trefniadau cyflenwi a chynllunio olyniaeth.

CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad



# 04 Fframwaith Strategol

**Mae angen dull amlochrog sy'n rhagweithiol ac yn adweithiol i atal twyll.**

Mae'r amrywiol gyrff sy'n ymwneud ag atal twyll o fewn GIG Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion eang i arwain eu gwaith i leihau'r achosion o dwyll ac i ddelio'n effeithiol â'r rhai sy'n cyflawni twyll yn erbyn y GIG.

Y gofyniad cyffredinol sy'n sail i'r egwyddorion hyn yw llywodraethu strategol effeithiol, arweiniad cryf a lefel amlwg o ymrwymiad gan uwch reolwyr ar draws GIG Cymru i daclo twyll. Yr egwyddorion allweddol, sef y meysydd trosfwaol a sgoriwyd gan Awdurdod Atal Twyll y GIG yn y Safonau Atal Twyll, yw:

**Hysbysu a Chynnwys** – codi ymwybyddiaeth staff GIG Cymru, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd wrth dynnu sylw at risgiau twyll, canlyniadau'r risgiau hynny i'r GIG, a'r mesurau a gymerwyd yn erbyn y rhai y canfuwyd eu bod wedi cyflawni twyll.

**Rhwystro ac Atal** – darparu datrysiadau i liniaru risgiau twyll a nodwyd, ymgymryd â gwaith rhagweithiol wedi'i dargedu i ganfod gweithgaredd twyllodrus posibl yn seiliedig ar ddadansoddi data yn effeithiol, ac annog unigolion i beidio â chael eu temtio i gyflawni twyll yn erbyn y GIG;


**Dal i Gyfrif** – ymchwilio i honiadau o dwyll yn drylwyr ac i'r safonau proffesiynol uchaf, a lle bo hynny'n briodol ceisio'r ystod lawn o sancsiynau sifil, troseddol a disgyblu a cheisio iawn lle bo hynny'n bosibl; a

**Llywodraethu Strategol** – Mae twyll yn esblygu'n barhaol ac mae agen ail-werthuso a gwella parhaus i sicrhau bod ein dull yn parhau i fod yn effeithiol.

## CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

# Fframwaith Strategol GIG Cymru ar gyfer Atal Twyll




CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

# 05 Adnoddau

**Prif wasanaethau atal twyll yn GIG Cymru yw'r canlynol:**

**Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdod Iechyd Arbennig**

Arbenigwyr Atal Twyll



**Cymru Gyfan**

Gwasanaethau Atal Twyll Cymru




**Cymorth Arbenigol**

Awdurdod Atal Twyll y GIG

- Mae gofyn i bob Bwrdd Iechyd dan Gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar Atal Twyll enwebu Arbenigwyr Atal Twyll Lleol cymwys, a gydnabyddir ac a achredir gan Fwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll. Ar hyn o bryd, mae 20 Arbenigwr Atal Twyll Lleol yng Nghymru, ac mae pob un yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan gyrff y GIG. Arbenigwr Atal Twyll Lleol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon ynghylch troseddau economaidd yn y corff iechyd y maent yn ei wasanaethu. Maent yn cytuno ar gynlluniau gwaith gyda'u sefydliadau priodol sy'n cynnwys cydbwysedd o waith rhagweithiol (ymwybyddiaeth a chanfod twyll) ac adweithiol (ymchwilio i dwyll), gan gyfateb yn agos i Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru).

- Mae Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru yn cynnwys saith ymchwilydd profiadol, achrededig a hyfforddedig. Rôl Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru yw ymchwilio i droseddau economaidd ar raddfa fawr a chymhleth a darparu arweiniad gweithredol arbenigol i'r rhwydwaith Arbenigwyr Atal Twyll Lleol. Mae gan Wasanaethau Atal Twyll yng Nghymru yr awdurdod i ddefnyddio pwerau ymchwilio ariannol cyfyngedig o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, ac ar hyn o bryd mae ganddynt ddau ymchwilydd wedi'u hyfforddi yn llawn i gyflawni'r gwaith hwn.

- Mae Awdurdod Atal Twyll y GIG(NHSCFA)yn wasanaeth awdurdod iechyd arbennig i NHS England. Yn unol ag Adran 83 trefniant Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn darparu gwasanaethau cymorth gweithredol arbenigol i GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfrifiadura Fforensig a gwasanaethau Deintyddol Arbenigol ac mae Llywodraeth Cymru yn talu am y rhain yn uniongyrchol trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae gan y swyddogaethau canlynol rôl uniongyrchol hefyd wrth atal twyll:


- **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** – Mae'r tîm Dilysu ar ôl Talu yng Ngwasanaethau Gofal Sylfaenol yn ymgymryd â gwiriadau o fewn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Fferylliaeth Gymunedol. Cynhelir gwiriadau tebyg ar Wasanaethau Deintyddol yn GIG Cymru trwy gytundeb ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Lloegr). Diben y gwiriadau yw darparu sicrwydd i'r Byrddau Iechyd bod hawliadau am daliad a wneir gan gontractwyr gofal sylfaenol yn briodol, a bod y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi yn unol â'r diffiniad ym manyleb gwasanaeth y GIG a deddfwriaeth berthnasol. Mae cysylltiad cyson a Phrotocol Rhannu Gwybodaeth gyda'r timau Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol, a bydd unrhyw bryderon twyll posibl yn cael eu cyfeirio i'w hymchwilio.

CYNNWYS

01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

- **Archwilio a Sicrwydd** - mae holl gyrff y GIG yng Nghymru yn derbyn gwasanaethau archwilio sicrwydd mewnol a ddarperir gan Dîm Archwilio a Sicrwydd PCGC. Er nad ydynt yn gyfrifol yn uniongyrchol am ganfod twyll, gall eu gwaith rheoli a sicrwydd dynnu sylw at wendidau system, a thor-reolaeth posibl, a all ddynodi tueddiad uwch i gyflawni twyll. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, maent yn gweithio ag Arbenigwyr Atal Twyll Lleol i gyflawni ymateb cydgysylltiedig. Yn ogystal, mae Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol ag Archwilio a Sicrwydd yn helpu i atgyfnerthu perthynas dda rhwng y gwasanaethau Atal Twyll ac Archwilio Mewnol;
- **Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol)** – mae holl gyrff y GIG yng Nghymru yn ddarostyngedig i archwiliad allanol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Er nad yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i dargedu'n uniongyrchol at dwyll, gallant hwythau hefyd ddatgelu gwendidau system neu arwyddion gwirioneddol o dwyll. Mae cysylltiad cyson rhwng archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol a Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru i drafod pryderon twyll posibl;
- **Menter Twyll Cenedlaethol (NFI)** - Sefydlwyd y Fenter Twyll Cenedlaethol yn 1996 ac mae'n paru data o fewn ac ar draws cyrff cyhoeddus bob dwy flynedd i adnabod anghysonderau a all fod o ganlyniad i dwyll. Mae'r Fenter Twyll Cenedlaethol yn cael ei rhedeg yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol dan bwerau paru data statudol. Ers sefydlu'r Fenter Twyll Cenedlaethol, mae wedi canfod mwy na £35m mewn twyll a gordaliadau ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gwnaeth yr ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol dwyflynyddol diweddaraf ddadorchuddio gwerth £5.4m, sef cynnydd o £1m ar yr ymarfer blaenorol.

Yn ogystal â'r mesurau penodol ag amlygir uchod, mae'n ddyletswydd ar holl staff y GIG i fod yn wyliadwrus wrth nodi cyfleoedd posibl ar gyfer, a/neu ddigwyddiadau gwirioneddol o, dwyll ac i roi gwybod am unrhyw bryderon i Wasanaethau Atal Twyll yng Nghymru neu Arbenigwr Atal Twyll Lleol y corff iechyd.



CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad



# 06 Llywodraethu

Mae'r Grŵp Llywio Atal Twyll yn darparu y prif lywodraethu a throsolwg ar gyfer trefniadau atal twyll yn GIG Cymru. Mae'r grŵp yn is-grŵp o Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid Cymru Gyfan. Rôl y Grŵp Llywio Atal Twyll yw darparu trosolwg ac adolygiad strategol o'r gwasanaeth atal twyll a ddarperir i GIG Cymru, ac i wneud argymhellion am newid i Lywodraeth Cymru ac i Grŵp Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru i'w mabwysiadu.

Cadeirir y Grŵp gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol PCGC, gydag aelodaeth gyfredol, sy'n cynnwys:

- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
- Cynrychiolydd Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio GIG Cymru
- Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd PCGC
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol PCGC
- Rheolwr Twyll Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll y GIG Cymru
- Cynrychiolydd Awdurdod Atal Twyll y GIG
- Cynrychiolydd Arbenigwyr Atal Twyll Lleol GIG Cymru
- Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol PCGC
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC
- Cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol (Sylwedydd)

Yn weithredol, mae'r holl wasanaethau atal twyll lleol ar draws Cymru yn adrodd i'w Cyfarwyddwyr Cyllid ac mae eu cynlluniau gwaith yn cael eu cymeradwyo a'u monitro gan y Pwyllgorau Archwilio ym mhob sefydliad. Bydd y rhain yn cwrdd bedair i bum gwaith y flwyddyn a bydd yr Arbenigwyr Atal Twyll Lleol priodol yn mynychu'r Pwyllgorau ac yn cyflwyno eu cynlluniau gwaith blynyddol, adroddiad cynnydd ac adroddiad blynyddol i'r pwyllgorau priodol.

Yn ogystal, mae Rheolwr Twyll Gweithredol Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru yn rhoi diweddariad ar weithgaredd atal twyll GIG Cymru, gwaith rhagweithiol, risgiau posibl, a data cywir ar adnoddau a chosbau trwy adroddiadau chwarterol a blynyddol ac yn diweddaru Pwyllgor Archwilio a Risg Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar risgiau twyll yn GIG Cymru.

CYNNWYS
01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad



# 07 Ansawdd Sicrwydd

Mesurir ansawdd gwasanaethau trwy gydymffurfio â'r Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (y safonau), a gynhyrchir gan Awdurdod Atal Twyll y GIG, a fabwysiadir gan GIG Cymru. Mae'r safonau wedi'u cynllunio i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Atal Twyll y GIG.

Ar hyn o bryd, mae 23 safon, wedi'u grwpio o dan y pedair egwyddor allweddol canlynol:

- **Hysbysu a Chynnwys** – asesu mesurau i godi ymwybyddiaeth am dwyll, ac i dynnu sylw at ganlyniadau twyll;
- **Rhwystro ac Atal** – asesu sut y mae sefydliad yn annog unigolion i beidio â chyflawni twyll, a sicrhau bod cyfleoedd i gyflawni twyll yn digwydd yn lleihau;
- **Dal i Gyfrif** – asesu'r trefniadau i ganfod ac ymchwilio i dwyll, a sut y ceisir iawn trwy gymhwyso sancsiynau yn briodol; a
- **Llywodraethu Strategol** – asesu trefniadau llywodraethu strategol i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu hymgorffori ar bob lefel.

Mae'r rhaglen sicrhau ansawdd yn cynnwys dwy brif broses: ansawdd ac asesu. Mae'r broses ansawdd yn canolbwyntio'n bennaf ar hunan-adolygu blynyddol yn erbyn y safonau, a gynhelir gan y sefydliad a'r canlyniadau a gyflwynir i Awdurdod Atal Twyll y GIG. Yna bydd tîm Ansawdd a Chydymffurfiad Awdurdod Atal Twyll y GIG yn ymgymryd â'r broses asesu.

Mae'r Offeryn Hunan-Adolygu, tystiolaeth gefnogol a'r broses archwilio yn sicrhau asesiad annibynnol o adnoddau atal twyll a pherfformiad y bwrdd iechyd.

Mae'r asesiadau blynyddol yn nodi bod perfformiad Arbenigwyr Atal Twyll Lleol GIG Cymru yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac yn cadarnhau bod unrhyw welliannau neu addasiadau a argymhellir yn cael sylw ar unwaith.

Yn ogystal, mae gwaith y tîm Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru hefyd yn ddarostyngedig i adolygiad sicrwydd llywodraethu cylchol, a gynhelir eto gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Cynhaliwyd hyn ddiwethaf yn ystod 2017, a chanfuwyd:

*"I grynhoi, mae Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru yn cynnal ymchwiliadau troseddol yn broffesiynol ac yn drylwyr. Maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a pholisïau gweithredol y GIG sy'n llywodraethu cynnal a rheoli achosion troseddol, gan gynnwys defnyddio'r system rheoli achosion CYNTAF. Gwerthfawrogir y cyngor, arweiniad a chefnogaeth a ddarperir ganddynt i'r gymuned atal twyll ehangach yng Nghymru."*




CYNNWYS

01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

# 08 Conclusion

Mae GIG Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal a gwella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru. Mae gwneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau yn hanfodol i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Rydym o'r herwydd yn benderfynol o fynd i'r afael â thwyll yn y GIG lle bynnag y mae'n codi ac yn parhau i fabwysiadu dull cydgysylltiedig i sicrhau bod cyllid gofal iechyd yn cael ei ddefnyddio tuag at ofal priodol i gleifion cyn belled ag y bo modd.

Er mwyn cyflawni hyn mae angen gweledigaeth a rennir ac ymdeimlad clir o bwrpas h.y. Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru lle na chaniateir i dwyll ffynnu ond sy'n cael ei liniaru a'i leihau trwy ymyriadau wedi'u targedu, wedi'u cefnogi gan ddiwylliant atal twyll y mae'r holl staff a rhanddeiliaid yn ymgysylltu ag ef.

Bydd y strategaeth hon yn helpu i ymgysylltu'n llawn â phawb sydd â rôl wrth amddiffyn gwasanaethau ac adnoddau a chodi proffil effaith niweidiol twyll ymhellach. Bydd y strategaeth yn cael ei chefnogi gan gynllun gweithredu manwl a fydd yn cael ei fonitro'n gyson gan y Grŵp Llywio Atal Twyll.

CYNNWYS


01 Rhagair
02 Crynodeb Gweithredol
03 Amcanion Strategol
04 Fframwaith Strategol
05 Adnoddau
06 Llywodraethu
07 Sicrhau Ansawdd
08 Casgliad

## Manylion Cyswllt:

Swyddfa
Gwasanaethau Atal Twyll GIG Cymru,
Llawr 1af,
Bloc B, Tŷ Mamhilad,
Ystâd Parc Mamhilad,
Pont-y-pŵl
NP4 0YP

**E-bost:** NWSSP.Communications@wales.nhs.uk

## Rhoi Gwybod am Dwyll

Rhowch wybod am dwyll yn ddiogel ac yn gyfrinachol drwy ddefnyddio offeryn rhoi gwybod am dwyll ar-lein Awdurdod Atal Twyll y GIG neu drwy alw ein rhif ffôn am ddim ar ***0800 028 40 60***.

***Dyluniwyd gan Adran Gyfathrebu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru***